



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Ryeqo® ar gyfer trin ffibroidau symptomatig ac endometriosis

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Mae **Ryeqo®** yn feddyginiaeth a ddefnyddir ymhlith menywod o oedran atgenhedlu i drin:

- symptomau cymedrol i ddifrifol ffibroidau yn y groth (tyfiannau nad ydynt yn ganseraidd yn y groth)
- Symptomau endometriosis (cyflwr lle mae meinwe tebyg i leinin y groth yn tyfu mewn mannau eraill yn y corff).

Mae'n gyfuniad o Relugolix 40mg (derbynnydd hormonau sy'n rhyddhau gonadotrophin (GnRH), estradiol (1mg) a norethisterone (0.5mg)). Mae'r driniaeth hon wedi'i hargymell gan NICE ar gyfer oedolion o oedran atgenhedlu. Gall ffibroidau yn y groth achosi symptomau sef gwaedu trwm a hir yn ystod mislif, poen pelfig, symptomau'n ymwneud â phwysedd ac anhawster beichiogi. Fel rhan o un astudiaeth nododd menywod sy'n defnyddio Ryeqo® eu bod yn colli llai na 80 ml o waed yn ystod mislif bob mis ac yn dweud eu bod yn colli o leiaf 50% yn llai o waed nac yr oeddynt cyn y driniaeth.

Mae dwy astudiaeth arall a oedd yn cynnwys menywod o oedran atgenhedlu (rhwng 18 a 50 oed) wedi dangos hefyd bod Ryeqo® yn effeithiol wrth drin symptomau endometriosis sy'n achosi poen cymedrol i ddifrifol.

Sut mae'n gweithio?

Mae Ryeqo® yn cynnwys tri sylwedd sy'n gweithio gyda'i gilydd. Mae relugolix yn atal hormonau rhag cael eu cynhyrchu yn yr ofariau trwy atal ofwleiddio (rhyddhau wy o ofariau), a thrwy hynny leihau'r estrogen a progesteron sy'n cael eu cynhyrchu. Gallai lefelau isel o estrogen roi symptomau tebyg i'r menopos a chaiff y rhain eu gwella gan Estradiol. Mae Norethisterone asetad yn lleihau'r risg o ddatblygu newidiadau annormal yn y groth oherwydd y cymeriant o estrogen.

Mae Ryeqo® yn creu effaith sy'n debyg i "ddiffodd" yr ofariau ond mae'r symptomau sy'n deillio o wneud hynny'n cael eu lliniaru gan estrogen a progesteron. Mae Ryeqo® wedi'i gynllunio i leihau gwaedu a achosir gan ffibroidau, ond nid yw ei effaith ar ffibroidau sy'n crebachu wedi cael ei astudio eto..

Sut mae'r cyffuriau'n cael eu rhoi?

Mae tabledi Ryeqo® yn cael eu cymryd unwaith y dydd gyda neu heb fwyd ar yr un amser bob dydd. Rhoddir y dabled gyntaf o fewn pum niwrnod i ddechrau'r mislif. Dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio dulliau atal cenhedlu hormonaidd cyn dechrau Ryeqo® a dylid defnyddio dulliau atal cenhedlu nad ydynt yn hormonaidd (megis condomau) am o leiaf fis ar ôl dechrau. Os byddwch yn methu dos, dylid ei gymryd

cyn gynted â phosibl, ac os methir mwy nac un dos, dylid defnyddio dulliau atal cenhedlu am y saith diwrnod nesaf.

Dim ond arbenigwyr ym maes rheoli ffibroidau a all gychwyn Ryeqo® ond gall meddygon teulu barhau i'w roi ar bresgripsiwn unwaith y bydd y symptomau wedi sefydlogi.

Efallai na fydd menywod o dan 40 oed angen biopsi o leinin y groth oni bai bod pryderon, ond argymhellir bod menywod dros 40 yn cael un.

Am ba mor hir y gallaf ei gymryd?

Nid oes terfyn amser o ran pa mor hir y gellir cymryd Ryeqo®, os yw'n effeithiol ac yn cael ei oddef yn dda. Gellir cymryd Ryeqo® yn ddi-dor. Dylid ystyried rhoi'r gorau i'w gymryd pan fyddwch yn cychwyn y menopos, gan y gwyddom bod ffibroidau yn y groth yn cychwyn diflannu pan fydd y menopos yn dechrau.

Rhybudd a rhagofal

- Mae'n rhaid diystyru beichiogrwydd cyn dechrau neu ailddechrau'r driniaeth.
- Bwydo ar y fron
- gwaedu o'r fagina heb esboniad
- Defnydd cydredol o ddulliau atal cenhedlu hormonaidd
- Alergedd i unrhyw gydrannau
- Anhwylder ceulo gwaed yn y gorffennol neu'r presennol
- Osteoporosis hysbys (yr esgyrn yn breuo) neu risg uchel o osteoporosis (hanes personol neu deuluol o osteoporosis, yfed gormod o alcohol, defnyddio steroid am gyfnodau hir, ysmegu, neu rai meddyginiaethau a gymerir ar hyn o bryd)
- Cur pen gyda symptomau niwrolegol ffocal neu gur pen meigrin gydag aura
- Clefyd difrifol yr afu (gyda phroffion swyddogaeth yr afu yn dangos diffygion)
- Hanes presennol neu hanes blaenorol o diwmorau ar yr afu
- Iselder difrifol

Sgîl-effeithiau

Mae pob meddyginiaeth yn achosi sgîl-effeithiau. Bydd y sgîl-effeithiau hyn yn cael eu trafod gyda chi gan eich gynaecolegydd.

- Mae rhai cleifion yn profi pyliau poeth a gwaedu o'r groth
- Mae colled esgyrn (sy'n amrywio o 3-8%) wedi'i nodi mewn cleifion a oedd â dwysedd mwynol esgyrn normal ar ddechrau'r driniaeth.
- Mae defnyddio meddyginiaeth sy'n cynnwys estrogen a progesteron yn cynyddu'r risg o geulo yn y rhydweiliau a'r gwythiennau (thromboemboliaeth wythiennol neu wenwynig) o'i gymharu â pheidio ei ddefnyddio. Byddwch yn cael cyngor ar symptomau ac yn cael gwybod pryd y dylid cael sylw meddygol brys.
- Dylid monitro newidiadau i'ch hwyliau megis iselder yn ofalus a dylech geisio sylw meddygol os ydych chi'n profi unrhyw un newidiadau ar ôl dechrau'r driniaeth.
- Dylid monitro pwysedd gwaed a thrin pwysedd gwaed yn y modd priodol.

Monitro

Byddwch yn cael eich monitro er mwyn gwirio effeithiolrwydd y driniaeth ac effeithiau andwyol gan eich arbenigwr. Efallai y bydd angen asesiadau sgan DEXA i wirio dwysedd esgyrn.

Cyfeiriadau:

[Overview | Relugolix-estradiol-norethisterone acetate for treating moderate to severe symptoms of uterine fibroids | Guidance | NICE](#)

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**